



At:

Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru sy'n darparu cyrsiau  
Addysg Uwch dynodedig  
Sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru sy'n darparu cyrsiau  
Addysg Uwch dynodedig  
Sefydliadau Preifat sy'n darparu cyrsiau Addysg Uwch  
dynodedig  
Y Cwmni Benthyciadau i Fyfrwyr  
UCAS  
Y Brifysgol Agored yng Nghymru  
Grŵp Rhanddeiliaid Cyllid Myfyrwyr Cymru  
UCM Cymru  
Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru  
Prifysgolion Cymru

22 Hydref 2014

Annwyl Gyfaill

## **CYMORTH I FYFYRWYR ADDYSG UWCH YN 2015/16:**

### **NEWIDIADAU I'W CYNNWYS YN RHEOLIADAU CYMORTH I FYFYRWYR CYMRU AR GYFER BLWYDDYN ACADEMAIDD 2015/16**

Mae Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfrwyr) (Cymru) 2013, sy'n rheoli'r cymorth a roddir ar gyfer blwyddyn academaidd 2014/15 i fyfrwyr addysg uwch sy'n byw yng Nghymru fel arfer, yn cael eu hailddrafftio ar hyn o bryd. Disgwylir i gyfres newydd o rheoliadau cymorth i fyfrwyr Cymru ar gyfer blwyddyn academaidd 2015/16 ddod i rym ar ddechrau 2015.

Mae nifer bach o newidiadau polisi a gwelliannau technegol i'r ddeddfwriaeth gyfredol wedi'u cynnig ar gyfer blwyddyn academaidd 2015/16. Mae manylion y nifer bach o newidiadau technegol y bwriedir eu gwneud i'w gweld yn yr atodiad isod. Ynghlwm wrth y llythyr hwn mae ffurflen ymateb y gall rhanddeiliaid ei llenwi os oes angen.

## **YMHOLIADAU**

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y rheoliadau neu am yr Hysbysiad Gwybodaeth hwn, cysylltwch yn y lle cyntaf â'r Is-adran Addysg Uwch, Llywodraeth Cymru - e-bost: [HEDConsultationsMailbox@Wales.GSI.Gov.UK](mailto:HEDConsultationsMailbox@Wales.GSI.Gov.UK)



## Hysbysiad Gwybodaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru (SFWIN 03/2014)

<b>Trosolwg</b>	Bwriad yr ymarfer hwn yw holi barn pobl am y newidiadau arfaethedig i'r polisi a'r mân newidiadau technegol i'r ddeddfwriaeth bresennol ar gymorth i fyfyrwyr sydd i'w cynnwys yn Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2015.
<b>Cynulleidfa</b>	Sefydliadau Addysg Uwch; Sefydliadau Addysg Bellach; Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr; y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr; y Brifysgol Agored yng Nghymru; grwpiau eraill â diddordeb.
<b>Sut i ymateb</b>	Os bydd gan unrhyw un sylwadau am y cynigion, dylid eu hanfon i Lywodraeth Cymru erbyn 3 Rhagfyr 2014. Gallwch wneud eich sylwadau yn ysgrifenedig ar y daflen ymateb sy'n dod gyda'r llythyr hwn a'u hanfon drwy'r e-bost i'r cyfeiriad isod: <a href="mailto:HEDConsultationsMailbox@cymru.GSI.Gov.UK">HEDConsultationsMailbox@cymru.GSI.Gov.UK</a>
<b>Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig</b>	<b>Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.</b>  Mae copi o'r Hysbysiad Gwybodaeth hwn ar gael hefyd ar y wefan ganlynol: <a href="http://www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk">www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk</a>
<b>Manylion cyswllt:</b>	Gallwch gael rhagor o wybodaeth am yr ymarfer hwn drwy anfon e-bost i: <a href="mailto:HEDConsultationsMailbox@cymru.GSI.Gov.UK">HEDConsultationsMailbox@cymru.GSI.Gov.UK</a> neu drwy ysgrifennu at:  Yr Is-adran Addysg Uwch, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ
<b>Diogelu data</b>	Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch i ni:  Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.  Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod i ni'n ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

### **Hysbysiad Gwybodaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru (SFWIN 03/2014)**

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid i ni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn i ni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

## **Crynodeb o'r newidiadau i'r rheoliadau cymorth i fyfyrwyr ar gyfer blwyddyn academaidd 2015/16**

Disgwylir y bydd y gyfres nesaf o reoliadau cymorth i fyfyrwyr yn cael eu cyhoeddi o dan y teitl Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2015.

### **Lefel y grantiau a'r benthyciadau**

Fel rheol caiff y pecyn cymorth sydd ar gael i fyfyrwyr addysg uwch cymwys yng Nghymru ei adolygu bob blwyddyn i ystyried effeithiau chwyddiant ar lefelau ffioedd ac ar y lefelau cysylltiedig o gymorth i fyfyrwyr.

### **1. Cymorth ffioedd**

#### **Pa newidiadau penodol yr ydym yn eu cynnig:**

O safbwynt myfyrwyr amser llawn a ddechreuodd astudio ar 1 Medi 2012 neu ar ôl hynny ac sy'n astudio yn ystod blwyddyn academaidd 2015/16:

- Ni fydd uchafswm y ffioedd dysgu y bydd sefydliadau yng Nghymru yn gallu eu codi, sef £9,000, yn newid;
- bydd cynnydd yn uchafswm y benthyciad ffioedd dysgu i gyd-fynd â chwyddiant (o £3,685) i £3,810 ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio yn 2012 neu ar ôl hynny. Bydd gostyngiad cyfatebol yn swm y grant ffioedd dysgu, i £5,190;
- yn achos myfyrwyr a fydd yn parhau i astudio yng Nghymru, Lloegr a'r Alban ac a ddechreuodd eu cyrsiau cyn mis Medi 2012, bydd uchafswm y cymorth ffioedd dysgu yn cael ei rewi ar £3,465;
- caiff uchafswm y benthyciad ffi dysgu sydd ar gael i fyfyrwyr sy'n parhau i astudio yng Ngogledd Iwerddon (ac a ddechreuodd eu cyrsiau cyn mis Medi 2012) ei gynyddu i £3,805 i adlewyrchu'r cynnydd yn y ffioedd a godir yno.

#### **Y canlyniad a fwriedir:**

Bydd myfyrwyr amser llawn yn parhau'n gymwys i gael digon o gymorth ffioedd i allu osgoi ffioedd ymlaen llaw yn unol â'r ymrwymiad a wnaed yn y Rhaglen Lywodraethu:

*"...na fydd unrhyw fyfyrwr [israddedig amser llawn] sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru yn talu ffioedd uwch, mewn termau real, yn ystod oes y weinyddiaeth hon na phe byddent wedi bod yn fyfyrwyr yn 2010-11. Bydd hyn yn berthnasol waeth ble mae'r myfyriwr yn dewis astudio, p'un ai yng Nghymru neu rywle arall."*

## **2. Cymorth cynhaliaeth**

### **Pa newidiadau penodol yr ydym yn eu cynnig:**

O safbwynt myfyrwyr amser llawn a ddechreuodd astudio ar 1 Medi 2012 neu ar ôl hynny ac sy'n astudio yn ystod blwyddyn academaidd 2015/16:

- Grant Dysgu gan Lywodraeth Cymru sy'n destun prawf modd (grant cynhaliaeth) o hyd at £5,161 gan ddibynnu ar incwm yr aelwyd
- Cynnydd o 3.34% yn y benthyciad cynhaliaeth sy'n destun prawf modd, i gyd-fynd â chwyddiant (hyd at £4,162 os yn byw gartref, hyd at £5,376 os yn byw i ffwrdd o gartref, a hyd at £7,532 os yn astudio yn Llundain (sy'n rhoi mynediad at gyfanswm o hyd at £6,743 o gyllid i gynnal y myfyrwyr hynny sy'n dod o aelwydydd incwm isel ac yn byw gartref; hyd at £7,957 os yn byw i ffwrdd o gartref a hyd at £10,113 os yn astudio yn Llundain;
- Canslo rhannol o hyd at £1,500 o'r benthyciad cynhaliaeth ar ôl dechrau ad-dalu.

## **3. Diffiniad o anabledd**

### **Pa newidiadau penodol yr ydym yn eu cynnig:**

Dyma newid technegol sy'n nodi'n benodol y diffiniad o anabledd o fewn y rheoliadau, gan gyfeirio at Ddeddf Cydraddoldeb 2010. O flwyddyn academaidd 2015/2016 gall y myfyrwyr sydd o fewn y categori hwn ymgeisio am y lwfansau i fyfyrwyr anabl. Trwy sicrhau bod y diffiniad o anabledd yn gwbl glir o fewn y rheoliadau mae'n fater o ganfyddiad ffeithiol o ran a yw myfyriwr o fewn y categori. Bydd CMC yn gofyn am dystiolaeth bod cyflwr tymor hir (o leiaf 12 mis) ar y myfyriwr sy'n cael effaith sylweddol (mwy nag effaith fach neu effaith dibwys a phitw) ar ei fywyd o ddydd i ddydd (gan gynnwys ei addysg). Caiff canllawiau ynghylch sut y caiff hyn ei wneud yn ymarferol eu dosbarthu maes o law.

## **4. Newidiadau i'r Grant Gofal Plant**

Ar hyn o bryd ni all myfyrwyr hawlio'r Grant Gofal Plant os ydynt hwy neu eu partner/gŵr/gwraig eisoes yn hawlio'r Elfen Gofal Plant o'r Credyd Treth Gwaith neu'r Credyd Cynhwysol. Bwriad hyn yw sicrhau na all cymorth â chostau gofal plant ond gael ei hawlio o un ffynhonnell gan y llywodraeth, hyd yn oed os nad yw'r arian hwnnw'n talu am yr holl gostau gofal plant.

Mae'r Adran lechyd wedi cynnwys darpariaeth o fewn eu Rheoliadau sy'n atal myfyrwyr sy'n bartneriaid i fyfyrwyr sy'n hawlio o dan y system Cymorth i Fyfyrwyr rhag hawlio'r grant gofal plant ar gyfer yr un plant ag yr hawli'r amdanynt o dan gynllun bwrsari'r GIG.

### **Pa newidiadau penodol yr ydym yn eu cynnig:**

Er mwyn cysoni'r polisi presennol a'i ddisgrifio'n benodol o fewn rheoliadau yng Nghymru, o flwyddyn academaidd 2015/2016 ni fydd gan fyfyrwyr rhan-amser ac amser llawn hawl i gyflwyno cais i Cyllid Myfyrwyr Cymru am y Grant Gofal Plant os oes ganddynt bartner ar gwrs a ariennir gan y GIG ac sy'n hawlio'r cymorth ar gyfer costau gofal plant drwy gynllun bwrsari'r GIG.

***Y canlyniad a fwriedir:***

Y nod yw atal ariannu dwbl gan y llywodraeth lle y gall dau o fyfyrwyr hawlio cymorth tuag at yr un costau gofal plant ar yr un pryd gan wahanol adrannau'r llywodraeth.

**5. Diffiniad o incwm trethadwy**

Nid yw'r diffiniad presennol o 'incwm trethadwy' yn y Rheoliadau, a ddefnyddir wrth asesu'n ariannol y benthyciad cynhaliaeth sy'n destun prawf modd, grantiau cynhaliaeth a grantiau ar gyfer pobl ddibynnol, yn uniongyrchol gysylltiedig â 'chyfanswm yr incwm' yn Neddf Treth Incwm 2007.

***Pa newidiadau penodol yr ydym yn eu cynnig:***

Cynigir newid y diffiniad rheoleiddiol o 'incwm trethadwy' er mwyn sicrhau rhagor o eglurder a chadarnhau bwriad cywir y polisi. Newid technegol yw hwn ac ni fydd yn cael unrhyw effaith uniongyrchol ar unrhyw fyfyrwr.